

CRhA YGGG Llantrisant PTA
Elusen Gofrestredig / Registered Charity No. 1136117
Facebook: YGGG Llantrisant PTA.
Twitter: @YGGG_Llant_PTA
E-bost/ E-mail: yggglantrisantpta@gmail.com

Neges oddi wrth Cadeirydd newydd Pwyllgor CRhA YGGG Llantrisant:

Croeso cynnes i rieni, neiniau a theidiau, staff, disgyblion a chefnogwyr y GRhA. Dyma fy llythyr cyntaf fel cadeirydd newydd y Pwyllgor.

Yn gyntaf hoffwn estyn gair o ddiolch gwresog i'r rhai sydd wedi sefyll lawr o'u rôl ar y pwyllgor eleni sef, Tim Edwards, David Hulse, Anne Miles a Richard Wiiliams. Diolch iddynt am yr holl ymdrech ac ymroddiad i'r CRhA ac am godi gymaint o arian dros y blynyddoedd. Hefyd, diolch i sywddogion a gwirfoddolwyr y Pwyllgor sydd wedi gweithio'n galed i drefnu'r digwyddiadau oll er mwyn sicrahu bod llawer iawn o arian yn cael ei godi i'r ysgol... ac yn cael tipyn o hwyl ar yr un pryd!

Y llynedd codwyd dros £12,000. Golygir hyn taw Pwyllgor CRhA YGGG Llantrisant yw un o'r rhai mwyaf llwyddianus yn y wlad! Am gyflawniad! Fel canlyniad, mae'r disgyblion wedi elwa wrth ddefnyddio cyfrifiaduron yn ein uned Technoleg Gwybodaeth newydd. Hefyd mae'r disgyblion bellach yn gwisgo crysau rygbi newydd. Eleni eto, byddwn yn cyd-weithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod yr arian a godwyd yn cael ei ddefnyddio er lles y disgyblion. Mae Mr O'Neil, staff a'r disgyblion wedi bod wrthi yn creu rhestr gobeithion i wella'r ysgol a byddwn yn ymdrechi i godi'r arian er mwyn medru cyflawni gofynion y rhestr bwysig yma.

Eleni, byddwn yn postio cynllun/ rhestr digwyddiadau y CRhA 2019/20 ar ein tudalen Facebook sef YGGG LLANTRISANT PTA felly cofiwch fynd ati i gael cip olwg ar y digwyddiadau cyffrous. Gwerthfawrogwn unrhyw wirfoddolwyr a/neu syniadau am ddigwyddiadau hwylus a rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda postio negeseuon ar ein tudalen Facebook. Os hoffech ymuno â'r pwyllgor llwyddianus yma, cynnig urhyw syniadau neu gwirfoddoli, cysylltwch â ni ar yggglantrisant@gmail.com neu dewch draw i gael clonc!

Mae'r CRhA yn cynnal cyfarfodydd misol felly os hoffech helpu/ gwirfoddoli sicrhewch eich bod yn cadw golwg ar ein tudalen Facebook neu neges o'r ysgol am y dyddiadau. Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn y digwyddiadau amrywiol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

Gallwch hefyd helpu godi arian i'r ysgol gan gofrestru a phrynu nwyddau drwy defnyddio https://www.easyfundraising.org.uk/causes/yggglantrisant/. Bob tro rydych yn prynu nwyddau o'r wefan yma bydd y CRhA yn derbyn arian yn ogystal. Mae hyn yn ffordd hawdd ac effeithiol i godi arian i'r ysgol ond ar yr un pryd yn sicrhau siopa hamddenol....yn enwedig gyda'r Nadolig yn agosáu!

Diolch o galon o flaen llaw am eich cefnogaeth.
Vanessa Arnold, Cadeirydd y CRhA.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

CRhA YGGG Llantrisant PTA

Elusen Gofrestredig / Registered Charity No. 1136117
Facebook: YGGG Llantrisant PTA.
Twitter: @YGGG_Llant_PTA
E-bost/ E-mail: yggglantrisantpta@gmail.com

Message from the new chair:

Welcome to all parents, grandparents, staff, pupils and supporters of the PTA. This is my first letter as chair of the PTA for 2019/2020.

Firstly, I would like to say a huge thank you to the PTA committee members who have stood down from their roles after an exhausting few years of fundraising. So thank you to Tim Edwards, David Hulse, Anne Miles and Richard Williams. My thanks also goes to the many members and volunteers who have given their time to help organise events to raise money for the school, as well as hopefully having fun.

Last year just over £12,000 was raised, making YGGG Llantrisant PTA one of the most successful PTAs in the country! More importantly, this has allowed our children to benefit from computers in a new IT suite and rugby tops. This year again we will be working closely with the school to ensure that money raised is invested in your children. Mr O'Neil, staff and children are working on a wish list for the school which we shall endeavour to raise funds to purchase!

This year we will be posting a plan of all the events for the academic year 2019/2020 so please look out for them on this Facebook page. We still need ideas for new events and volunteers to help as often as possible. We are also looking for volunteers to post messages on the class Facebook pages. If you have an idea or you would like to volunteer please speak to me or mail me at yggglantrisantpta@gmail.com.

If you would like to support the PTA further come along to the meetings which are held monthly. Dates will be posted on our Facebook page and messages via the school. I look forward to meeting you all at the events during the year.

You can also help raise funds for the school by registering, then purchasing goods through https://www.easyfundraising.org.uk/causes/yggglantrisant/. Every time you purchase goods through this site the PTA receives a money reward. A quick and easy way to raise funds while purchasing presents, especially leading up to Christmas.

Thank you all in advance for your support,
Vanessa Arnold.